# Minutes of Meeting of the Environmental Committee held on 23 October 2023 at 6.30 pm A meeting conducted via 'Teams' only.

**Councillors Present** Helen Nelson (Chair), Sara Keeton, Carrie Townsend Jones, and Michael Parkin.

**Co-opted members present:** Eddie Hall

**Officers Present:** Kerry-Leigh Grabham – Clerk, Lydia Graham – Environmental Officer, and Ian Hughes – Committee Support Officer (CSO)

**EN2310-01** **Apologies:** Cllr Rebecca Fogarty.
In addition to Cllr Fogarty's absence, The Chair, Cllr Nelson gave apologies on behalf of Co-opted members and Natasha Dodds who was due to talk on the Big Climate Leap **EN2310-10** refers. The Chair also directed that Cllr Will Thomas be removed from the committee members as he only attended previously as a guest, and that the newly appointed committee member, Emelie Cox be provided with a timetable of future meetings.

**Action:** Lydia Graham to liaise with both Natasha Dodds and Martin Russell over their participation during November and December meetings.

**Action:** CSO to remove Cllr Will Thomas from list of Environmental Committee Members and Provide Cllr Emilie Cox with a list of future committee dates and add her to circulation lists.

**EN2310-02** **Declarations of Interest:** None

**EN2310-03** **To approve the minutes of the meeting held on the 2 October 2023 as a true record.**

**RESOLVED** to approve the minutes of the meetings held on 2 October 2023 as a true record.

**EN2310-04** **Actions from previous meeting (2.10.23) update**

**RESOLVED:** Outstanding actions updated and completed; details recorded in 'action' report.

**Dealing with the budget underspends from 2022/23**

**EN2310-05**

The following suggestions by RFO were discussed: -

1. The virement suggested by the RFO to cover overspends and highlighted in green in the spreadsheet are agreed and will be reported to Committee who will make a recommendation to Council

**Recommended** following approval by committee, the suggestions by RFO, be approved by Full Council.

2. The underspends which have already been included in the 2023/24 budget and highlighted in pink are to be carried forward as earmarked reserves but will not add to the 2023/24 budget.

**RESOLVED:** Agreed that the underspends described be carried forward as suggested.

3. The following underspends shown in blue are to be carried forward as earmarked reserves to provide match funding of £20,000 for the Castle Woods Paths Grant Application

   Civic Amenities £14,700
   Cleaning SLA £2,178
   Community Orchard £2,244
   Grass Verge Scheme £878

   Cllr Townsend Jones introduced this item and stated that this should refer to Castle Woods and Washinghouse Brook Paths

   **RESOLVED:** Agreed that the underspends shown be carried forward as suggested.

   **Action:** Cllr Carrie Townsend Jones to provide a verbal update on the 'carrying over' of funds in relation to The Castle Woods and Washinghouse Brook Paths.

4. The Recycling Bins underspend of £7,000 to be carried forward as an earmarked reserve to be used for the same purpose.

**RESOLVED:** Agreed that the underspend be carried forward as suggested.

5. The E-Cargo Bikes underspend of £10,000 to be carried forward as an earmarked reserve to be used for the same purpose.

   **RESOLVED:** Agreed that the underspend be carried forward as suggested.

6. The Clyne Gardens Gazebo underspend of £6,000 is to be carried forward as an earmarked reserve to be used for the same purpose.

   **RESOLVED:** Agreed that the underspend be carried forward as suggested.

7. The following underspends are available to carry forward as earmarked reserves but have not yet been allocated to a particular budget.

   Jubilee Garden £85
   Shared Space £39
   Grass Verge Scheme £1,222
   Wildlife Signage Scheme £2,000
   Total £3,346

   **RESOLVED:** Agreed that the underspends be carried forward as suggested

**EN2310-06** **Budget Monitoring Report to 31/08/2023**

The Clerk outlined key points from the Budget Monitoring Report.

**RESOLVED** the Budget Monitoring Report was accepted.

**EN2310-07** **Budget 2024/25**

Discussion concerning how best MCC could best use its budget in the forthcoming year including projects including the purchase of bulbs for planting.

**RESOLVED** that RFO would outline in detail the current budget report at the next meeting and that all proposals for the next financial year be presented at the next meeting.

**ACTION**: RFO, Paul Beynon to present budget report at November Meeting.

**ACTION**: All councillors to identify unspent areas/opportunities and to present any proposals at November Meeting and submit Budget Proposal Forms to RFO by 30th November 2023.

## EN2310-08 Update Environment Officer - Monthly Report on current projects and overview:

- Jubilee Gardens funding – update on progress and funding needed.

  **ACTION**: Lydia together with The Clerk will be working through an application for the National Lottery Local Places For Nature Fund. Lydia will develop a plan for the gardens with strong input from the residents of Llanfair House.

- Wildflower Verge Scheme – Where will this be and how will we work it.

  **ACTION:** Cllr Sara Keeton will propose a location for the Wildflower Verge in West Cross to be planted in spring.

- Bulb planting –update
  Bulb planting dates have been arranged and bulbs are ready to go in. Budget needs to be significantly increased next year.

- Mumbles Green Heroes.
  MCC will be hosting three of these events per year, in varying locations. Lydia will be organising and publishing events, with locations still to be confirmed.

- Schools' projects.
  Only one school has accepted the grant. Lydia will continue to try to get through to schools and make them aware of the grant, with the help of councillors with connections to the schools.

- Launching the Litter Picking Hub
  MCC cannot launch the litter picking hub until Keep Wales Tidy add us to the official list of Swansea Hubs. This will be when the new Swansea council waste strategy comes into place. Lydia will arrange another launch event for this time.

**ACTION:** Lydia to prepare an update for November Committee Meeting in relation to above points.

**EN2310-09** **Committee work plan – next steps**

Discussion on work plan.

**Action:** Lydia to circulate relevant information to committee members.

**EN2310-10** **Big Climate Leap** – Presentation from Natasha Dodds (project lead from the Environment Centre) ·

Due to Natasha Dodds not being able to attend the presentation was postponed.

**Resolved:** Deferred until November Meeting when it will be prioritised.

**EN2310-11** **Introduction to Carbon Literacy**

Discussion on importance of Carbon Literacy.

**Action:** Lydia to circulate relevant information to committee members.

**Meeting ended at 8.03pm**

# Cofnodion Cyfarfod  Pwyllgor yr Amgylchedd a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2023, am 6.30pm Cyfarfod a gynhaliwyd trwy gyfrwng 'Teams' yn unig

**Y Cynghorwyr yn bresennol:** Helen Nelson (Cadeirydd), Sara Keeton, Carrie Townsend Jones, a Michael Parkin.

**Yr Aelodau cyfetholedig yn bresennol:** Eddie Hall, a Peter Jones

**Y Swyddogion yn bresennol:** Kerry-Leigh Grabham – Clerc, Lydia Graham – Swyddog yr Amgylchedd, ac Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

**EN2310-01** **Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Rebecca Fogarty.
Yn ogystal ag absenoldeb y Cynghorydd Fogarty, ymddiheurodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Nelson, ar ran yr aelodau cyfetholedig a Natasha Dodds a oedd i fod i siarad am y Big Climate Leap. Cyfeirir at hyn yn **EN2310-10**. Dywedodd y Cadeirydd hefyd fod y Cynghorodd Will Thomas i'w dynnu oddi ar restr aelodau'r pwyllgor gan mai dim ond fel gwestai y bu'n bresennol o'r blaen, a bod angen i aelod newydd y pwyllgor, Emilie Cox gael amserlen o gyfarfodydd y dyfodol.

**Cam Gweithredu:** Lydia Graham i gysylltu â Natasha Dodds a Martin Russell ynglŷn â'u cyfranogiad yn ystod cyfarfodydd mis Tachwedd a mis Rhagfyr.

**Cam Gweithredu:** Y Swyddog Cymorth Pwyllgorau i dynnu'r Cynghorydd Will Thomas oddi ar restr aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd a rhoi rhestr o ddyddiadau cyfarfodydd y pwyllgor yn y dyfodol i'r Cynghorydd Emilie Cox a'i hychwanegu at y rhestrau cylchrediad.

**EN2310-02** **Datganiadau o fuddiant:** Dim

**EN2310-03** **Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2023 fel cofnod gwir.**

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2023 fel cofnod gwir.

**EN2310-04** **Y diweddaraf am gamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol (2 Hydref 2023)**

**PENDERFYNWYD:** bod y camau gweithredu a oedd heb eu cwblhau bellach wedi'u diweddaru a'u cwblhau, a bod y manylion wedi'u cofnodi yn yr adroddiad 'camau gweithredu'.

**EN2310-05** **Y diweddaraf am gamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol (23 Hydref 2023)**

**Ymdrin â'r tanwariant yng nghyllideb 2022/2023**

Trafodwyd yr awgrymiadau canlynol gan y Swyddog Arian Cyfrifol: -

8. Bod y trosglwyddiad a awgrymir gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol ar gyfer gorwariant, ac a amlygir mewn gwyrdd ar y daenlen, yn cael ei gytuno ac yna'n cael ei adrodd i'r Pwyllgor, a fydd yn gwneud argymhelliad i'r Cyngor.

**Argymhellwyd** , yn dilyn cymeradwyaeth y pwyllgor, bod yr awgrymiadau a wnaed gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol i'w cymeradwyo gan y Cyngor Llawn.

9. Bod y tanwariant sydd eisoes wedi'i gynnwys yng nghyllideb 2023/2024 ac a amlygir mewn pinc i'w gario ymlaen fel cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi ond ni fydd yn cael ei ychwanegu at gyllideb 2023/2024.

**PENDERFYNWYD:** Cytunwyd y dylai'r tanwariant a ddisgrifiwyd gael ei gario ymlaen fel yr awgrymwyd.

10. Bod y tanwariant canlynol a ddangosir mewn glas yn cael ei gario ymlaen fel cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi i ddarparu arian cyfatebol o £20,000 ar gyfer Cais Grant Llwybrau Coed y Castell.

    Amwynderau Dinesig £14,700
    Cytundebau lefel gwasanaeth Glanhau £2,178
    Perllan Gymunedol £2,244
    Cynllun Llain Las £878

    Cyflwynodd y Cynghorydd Townsend Jones yr eitem hon a dywedodd y dylai hon gyfeirio at Goed y Castell a Llwybrau Nant y Golchdy

**PENDERFYNWYD:** Cytunwyd y dylai'r tanwariant a ddangoswyd cael ei gario ymlaen fel yr awgrymwyd.

**Cam Gweithredu:** Y Cynghorydd Carrie Townsend Jones i roi diweddariad ar lafar am 'gario ymlaen' yr arian mewn perthynas â Choed y Castell a Llwybrau Nant y Golchdy.

11. Bod y tanwariant o £7,000 o safbwynt y biniau ailgylchu i'w gario ymlaen fel cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi i'w defnyddio i'r un pwrpas.

**PENDERFYNWYD:** Cytunwyd y dylid cario'r tanwariant ymlaen fel yr awgrymwyd.

12. Bod y tanwariant o £10,000 o safbwynt y Beiciau E-Cargo i'w gario ymlaen fel cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi i'w defnyddio i'r un pwrpas.

**PENDERFYNWYD:** Cytunwyd y dylid cario'r tanwariant ymlaen fel yr awgrymwyd.

13. Bod y tanwariant o £6,000 o safbwynt Gazebo Gerddi Clun i'w gario ymlaen fel cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi i'w defnyddio i'r un pwrpas.

**PENDERFYNWYD:** Cytunwyd i gario'r tanwariant ymlaen fel yr awgrymwyd.

14. Mae'r tanwariant a ganlyn ar gael i'w cario ymlaen fel cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ond nid ydynt eto wedi'u dyrannu i gyllideb benodol.

    Gerddi Jiwbilî £85
    Rhannu Lle £39
    Cynllun Llain Las £1,222
    Cynllun Arwyddion Bywyd Gwyllt £2,000
    Cyfanswm o £3,346

**PENDERFYNWYD:** Cytunwyd y dylid cario'r tanwariant ymlaen fel yr awgrymwyd.

## EN2310-06 Adroddiad Monitro'r Gyllideb hyd at 31 Awst 2023

Amlinellodd y Clerc bwyntiau allweddol Adroddiad Monitro'r Gyllideb.

**PENDERFYNWYD** derbyniwyd Adroddiad Monitro'r Gyllideb.

EN2310-07 **Cyllideb 2024/2025**

Trafodaeth ynglŷn â'r ffordd orau i Gyngor Cymuned y Mwmbwls ddefnyddio ei gyllideb yn y flwyddyn i ddod gan gynnwys prosiectau yn cynnwys prynu bylbiau i'w plannu.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn amlinellu'n fanwl yr adroddiad cyllideb cyfredol yn y cyfarfod nesaf a bod yr holl gynigion ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

**CAM GWEITHREDU**: Paul Beynon, y Swyddog Ariannol Cyfrifol, i gyflwyno adroddiad cyllideb yng nghyfarfod mis Tachwedd.

**CAM GWEITHREDU**: Pob cynghorydd i nodi meysydd/cyfleoedd lle na wariwyd ac i gyflwyno unrhyw gynigion yng nghyfarfod mis Tachwedd a chyflwyno Ffurflenni Cynnig Cyllideb i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol erbyn 30 Tachwedd 2023.

EN2310-08 **Diweddariad gan Swyddog yr Amgylchedd – Adroddiad Misol ar brosiectau cyfredol a throsolwg:**

- Cyllid Gerddi Jiwbilî – diweddariad ar gynnydd a'r cyllid y mae ei angen.

  **CAM GWEITHREDU**: Bydd Lydia, ynghyd â'r Clerc, yn llunio cais ar gyfer Cronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur y Loteri Genedlaethol. Bydd Lydia yn datblygu cynllun ar gyfer y gerddi gyda mewnbwn cryf gan drigolion Tŷ Llanfair.

- Cynllun Llain Flodau Gwyllt – Lle bydd hwn a sut byddwn yn ei weithio.

  **CAM GWEITHREDU:** Bydd y Cynghorydd Sara Keeton yn cynnig lleoliad ar gyfer y Llain Flodau Gwyllt yn West Cross i'w phlannu yn y gwanwyn.

- Plannu bylbiau – diweddariad Mae dyddiadau plannu bylbiau wedi eu trefnu ac mae bylbiau yn barod i'w plannu. Mae angen cynyddu'r gyllideb yn sylweddol y flwyddyn nesaf.

- Pencampwyr Gwyrdd y Mwmbwls
  Bydd Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn cynnal tri digwyddiad o'r fath

bob blwyddyn, mewn lleoliadau amrywiol. Bydd Lydia yn trefnu ac yn cyhoeddi digwyddiadau, gyda lleoliadau eto i'w cadarnhau.

- Prosiectau ysgolion
  Dim ond un ysgol sydd wedi derbyn y grant. Bydd Lydia yn parhau i geisio mynd drwodd i'r ysgolion a'u gwneud yn ymwybodol o'r grant, gyda chymorth y cynghorwyr sydd â chysylltiadau â'r ysgolion.

- Lansio'r Hyb Codi Ysbwriel Ni all Cyngor Cymuned y Mwmbwls lansio'r hyb codi ysbwriel nes bod Cadwch Gymru'n Daclus yn ein hychwanegu at restr swyddogol Hybiau Abertawe. Dyma pryd y daw strategaeth wastraff newydd Cyngor Dinas a Sir Abertawe i rym. Bydd Lydia yn trefnu digwyddiad lansio arall ar gyfer yr amser hwn.

**CAM GWEITHREDU:** Lydia i baratoi diweddariad ar gyfer cyfarfod pwyllgor mis Tachwedd mewn perthynas â'r pwyntiau uchod.

**EN2310-09** **Cynllun gwaith y pwyllgor – y camau nesaf**
Trafodaeth ar y cynllun gwaith.

**Cam Gweithredu:** Lydia i ddosbarthu'r wybodaeth berthnasol i aelodau'r pwyllgor.

**EN2310-10** **Big Climate Leap** – Cyflwyniad gan Natasha Dodds (arweinydd prosiectau o Ganolfan yr Amgylchedd)
Oherwydd nad oedd Natasha Dodds yn gallu bod yn bresennol, gohiriwyd y cyflwyniad.

**PENDERFYNWYD** gohirio tan gyfarfod mis Tachwedd pan fydd yn cael ei flaenoriaethu.

**EN2310-11** **Cyflwyniad i Lythrennedd Carbon**
Trafodaeth ar bwysigrwydd Llythrennedd Carbon.

**Cam Gweithredu:** Lydia i ddosbarthu'r wybodaeth berthnasol i aelodau'r pwyllgor.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.03pm**